Y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Anadlol

Respiratory Health Implementation Group

Mai 27 2020

Apiau hunanreoli GIG Cymru ar gyfer Asthma a COPD

Annwyl Dimau a Rheolwyr Gofal Iechyd Anadlol (sy'n darparu gofal i gleifion ag Asthma a COPD),

Mae apiau hunanreoli GIG Cymru ar gyfer Asthma a COPD bellach ar gael ar Google Play (Android) a'r App Store (Apple).

Mae'r apiau hyn wedi'u datblygu gydag arbenigwyr mewn Asthma a COPD, gyda chefnogaeth nifer o gynrychiolwyr cleifion a byddant yn parhau i gael eu diweddaru ganddynt. Maent ar gael am ddim yn Gymraeg a Saesneg i gleifion ledled Cymru.

Pwrpas yr apiau yw cefnogi rheolaeth hirdymor cleifion sydd ag Asthma a COPD i helpu cleifion i gadw'n iach. Mae'r apiau yn darparu cyngor, addysg a chefnogaeth atodol sy'n briodol ac o ansawdd rhagorol. Dylai'r apiau hefyd eich helpu chi fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel offeryn i hyrwyddo hunanreolaeth ac adnodd dibynadwy i gyfeirio'ch cleifion ato.

Y tri ap yw:

1. AsthmaHub - Ap hunanreoli GIG Cymru ar gyfer oedolion sydd ag Asthma
2. AsthmaHub i rieni - Ap rheoli GIG Cymru ar gyfer rhieni plant sydd ag Asthma
3. COPDHub - Ap hunanreoli GIG Cymru ar gyfer pobl sydd â COPD

Byddwn yn gweithredu'r apiau gyda'ch cefnogaeth chi a chefnogaeth eich Bwrdd Iechyd. Mae yna ychydig o egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod mabwysiadu'r ap yn digwydd mewn ffordd reoledig a chydlynol.

1. Gall cleifion lawrlwytho'r ap o Google Play ar ddyfeisiau Android, ac o'r App Store ar ddyfeisiau Apple.
2. Nid yw'r apiau'n disodli cyngor gofal iechyd, ond maent yn cynnig gwybodaeth atodol am ofal asthma a COPD da ac yn darparu modd i fonitro a chofnodi gwybodaeth arbennig o ddefnyddiol am gyflwr eich cleifion y tu allan i'r amgylchedd gofal iechyd.
3. Bydd dosbarthiad deunyddiau marchnata gan gynnwys taflenni a phosteri yn mynd yn uniongyrchol i feddygfeydd teulu, ysbytai a fferyllfeydd ledled Cymru. Sicrhewch fod y rhain ar gael i'ch cleifion a'u cynnig i'ch cleifion yn eu hadolygiadau asthma neu COPD ac apwyntiadau eraill.
4. Bydd gan yr apiau gymorth technegol ond nid cymorth clinigol i ddefnyddwyr.
5. Mae cynnwys ap yn cael ei reoli gan gonsortiwm cenedlaethol o arbenigwyr clinigol a chleifion

Gobeithiwn y bydd yr apiau hyn nid yn unig o fudd i'ch cleifion ond hefyd i chi fel gweithwyr iechyd proffesiynol a'r gwasanaethau iechyd rydych chi'n gweithio drostynt, fel adnodd dibynadwy i gefnogi'ch cleifion yn ystod eu cyfnodau rhwng apwyntiadau gofal iechyd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr ap yn **https://healthhub.wales**. Os bydd angen rhagor o daflenni neu bosteri arnoch chi, cysylltwch â ni yn **support@healthhub.wales**

Cofion cynnes,



Dr. Simon Barry
National Respiratory Clinical Lead for Wales